

## Ymateb Partneriaeth Pensiwn Cymru - Galw am Dystiolaeth

### Graddfa a Chydgrynhoi

Rydym yn deall bod cwestiynau 1 - 4 yn benodol i farchnadoedd Cyfraniad Diffiniedig (nid yn gysylltiedig â Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) na Chyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol), felly ni ddarparwyd unrhyw atebion.

**C5. I ba raddau y mae cyfuno asedau CPLIL wedi bod yn llwyddiannus, gan gynnwys modelau cyfuno penodol, o ran sicrhau gwell adenillion hirdymor wedi'u haddasu o ran risg a gallu i fuddsoddi mewn ystod ehangach o ddsbarthiadau asedau?**

**Mae cyfuno buddsoddiadau wedi bod yn llwyddiannus i'r cronfeydd CPLIL yng Nghymru a ledled Lloegr ac mae'n cyflawni amcanion y llywodraeth gan gynnwys sicrhau buddion graddfa. Mae PPC wedi gwneud y canlynol:**

- cyfuno 74% o'r asedau
- cyflawni cyfanswm arbedion hyd at 31 Mawrth 2024 o £56.67M
- galluogi mynediad i ystod lawn o ddsbarthiadau asedau marchnad breifat
- canoli a dirprwyo'r gwaith o ddewis rheolwyr buddsoddi
- hwyluso mwy o fuddsoddi lleol a datblygiadau mewn buddsoddi cyfrifol

**Dangoswyd bod gwahanol fodelau cyfuno yn effeithiol, gan gynnwys model wedi'i allanoli PPC. Mae PPC yn defnyddio gweithredwr cronfa trydydd parti annibynnol sy'n gyfrifol am benodi rheolwyr buddsoddi. Mae hyn yn lleihau gwrthdaro, yn galluogi penodi'r gweithredwr a'r rheolwr buddsoddi gorau ac yn sicrhau buddion graddfa y gweithredwr a'i ymgynghorydd buddsoddi.**

### Model cyfuno PPC

Mae gan gronfeydd cyfunol wahanol fodelau gweithredu sy'n cyd-fynd â'u hamgylchiadau a'u hanghenion. Mae gan bob un ei rinweddau ac yn effeithiol wrth sicrhau buddion cyfuno buddsoddiadau.

Mae PPC yn defnyddio model wedi'i allanoli. Ar ddechrau'r broses gyfuno, comisiynodd Cronfeydd CPLIL Cymru adroddiad annibynnol a oedd yn ystyried modelau cyfuno amrywiol a daethpwyd i'r casgliad mai'r model wedi'i allanoli oedd yr un mwyaf priodol i Gymru.

Mae dyluniad y model hwn yn caniatáu i'r berthynas waith ragorol sy'n bodoli eisoes rhwng yr Awdurdodau Gweinyddu barhau. Y nodweddion allweddol yw:


- 1) mae endid a reoleiddir gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (Cynllun Contractiol Awdurdodedig a reoleiddir yn y DU neu "weithredwr cronfa") yn gweithredu cyfrwng buddsoddi cronfa ar gyfer pob dosbarth asedau hylifol (Cynllun Contractiol Awdurdodedig yn y DU) - mae gweithredwr y gronfa (Waystone) yn cael ei benodi gan PPC fel noddwyr cronfa gan ddefnyddio proses caffael cyhoeddus dryloyw;
- 2) mae'n penodi "Darparwr Datrysiadau Rheoli Buddsoddiadau" (Russell Investments) sy'n dylunio is-gronfeydd aml-reolwr sy'n cyd-fynd ag amcanion strategaeth fuddsoddi y buddsoddwyr a benderfynir yn lleol (cronfeydd CPLIL yn PPC), yn dewis rheolwyr buddsoddi ac yn negodi ffioedd;
- 3) mae'r gweithredwr yn darparu'r platfform, trefniadau llywodraethu, cydymffurfio rheoleiddiol, rheoli risg a goruchwyliaeth buddsoddi annibynnol ar gyfer yr is-gronfeydd ecwiti gweithredol ac incwm sefydlog;
- 4) mae gan y gweithredwr gyfrifoldeb rheoleiddiol dros gyflogi a diswyddo rheolwyr cronfeydd;

- 5) mae'r gweithredwr yn llunio contract â rheolwyr buddsoddi a darparwyr gwasanaethau eraill;
- 6) defnyddir model tebyg mewn marchnadoedd preifat – mae "dyrannwr buddsoddi" yn cael ei benodi ar gyfer y gwahanol fuddsoddiadau marchnad breifat ac mae'n gyfrifol am ddylunio mandadau i gyflawni amcanion cronfeydd PPC a dewis rheolwyr buddsoddi;
- 7) mae buddsoddiadau goddefol yn cael eu hallnoli drwy broses caffael ar y cyd; a
- 8) threfniadau llywodraethu a goruchwyllo gan Gydbwyllgor Llywodraethu sy'n cynnwys yr 8 cronfa sylfaenol sydd wedi'u hymgorffori mewn Cytundeb Rhwng Awdurdodau sy'n gyfreithiol rwyngol.

Mae gan bob model wahanol rinweddau. Mae manteision model PPC yn cynnwys:

- 1) mae defnyddio gweithredwr cronfa trydydd parti annibynnol yn cael gwared â gwrthdaro sy'n rhan annatod o fodolau eraill – nid yw awdurdodau PPC yn berchen ar swyddogaethau rheoli buddsoddiadau mewnol neu weithredwr y gronfa;
- 2) yn ychwanegol at y manteision lleihau risg arferol sy'n gysylltiedig â goruchwylloeth yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol ar endidau cronfa gyfunol a reoleiddir (gan gynnwys monitro ac adrodd gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, gofynion cyfalaf risg, swyddogaethau uwch-reolwyr, ac ati) mae cronfeydd PPC hefyd yn elwa ar fesurau diogelu cyfreithiol ychwanegol o dan gontractau masnachol gan gynnwys gofynion atebolrwydd ac yswiriant seiberddiogelwch;
- 3) gall pob parti sy'n darparu gwasanaethau cyfuno gael ei ddisodli gan broses caffael cyhoeddus dryloyw;
- 4) Roedd gan PPC gostau sefydlu isel o gymharu â modelau cyfuno eraill oherwydd ei strwythur a'r manteision sy'n gysylltiedig â maint ei darparwyr gwasanaeth trydydd parti gan eu bod yn rhannu eu costau dros nifer o gleientiaid ac mae eu maint yn eu galluogi i sicrhau cyfraddau ffioedd is (ee pŵer negodi byd-eang Russell);
- 5) Mae model "dyrannwr buddsoddi" wedi'i allnoli PPC yn sicrhau manteision tebyg i farchnadoedd preifat;
- 6) Mae'r strwythur llywodraethu ecwitiol yn sicrhau bod y gronfa gyfunol yn blaenoriaethu gofynion buddsoddi'r buddsoddwyr ac nid ei hagenda ei hun; ac
- 7) Mae'r strwythur llywodraethu a chyfuno presennol yn caniatáu i'r awdurdodau cyfansoddol gydymffurfio â gofynion rheoleiddio lleol (sy'n unigryw i Gymru) e.e.
  - Deddf yr Iaith Gymraeg
  - Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
  - Rheoleiddio archwilio allanol a chyfrifon ar wahân

Mae model PPC, gan gynnwys y strwythur llywodraethu, wedi'i ddangos isod:



## Llwyddiant cyfuno

Mae'r cyflawniadau hyd yn hyn yn cynnwys:

- 1) graddfa: ar 31 Mawrth 2024, mae 74% o asedau PPC wedi cael eu cyfuno / o dan reolaeth cronfeydd cyfunol;
- 2) costau: y cyfanswm arbedion cost hyd at 31 Mawrth 2024 yw £56.67m;
- 3) mae'r perfformiad net wedi'i wella gan arbedion cost a disgwylir iddo fod yn llai anwadal o ran y gronfa gyfunol yn sgil defnyddio is-gronfeydd aml-reolwr;
- 4) trefniadau llywodraethu: mae nifer o swyddogaethau a chyfrifoldebau gwneud penderfyniadau yn cael eu canoli a'u dirprwyo i'r gronfa gyfunol, gan gynnwys chwilio am reolwyr buddsoddi a'u dewis (mae'r gwaith hwn wedi'i ddirprwyo i ymgynghorydd buddsoddi'r gweithredwr sef Russell) ac adrodd ar berfformiad; ac
- 5) mae cyfuno wedi sicrhau manteision eraill a fyddai wedi bod yn anodd eu cyflawni heb gyfuno. Mae'r rhain yn cynnwys darparu ystod eang o ddsbarthiadau asedau, gan gynnwys marchnadoedd preifat (a chaniatáu mynediad llai i'r cyfleoedd hyn), gan arwain at hwyluso buddsoddiadau sylweddol yn y DU ac yn lleol, gyda buddion cysylltiedig i'r gymuned a datblygiadau sylweddol mewn buddsoddi cyfrifol.

## Costau yn erbyn Gwerth

**C2. A oes achos dros ymyriadau gan y Llywodraeth, wedi'u hanelu at gyflogwyr neu gyfranogwyr eraill yn y farchnad, gyda'r nod o annog cynlluniau pensiwn i gynyddu eu cyllidebau buddsoddi er mwyn ceisio adenillion buddsoddi uwch o ystod ehangach o ddsbarthiadau asedau?**

**Er y byddai cymhellion gan y llywodraeth i wneud buddsoddi yn y DU yn fwy atyniadol yn ddefnyddiol (gweler yn ddiweddarach), nid ydym yn credu mai ymyrraeth gan y llywodraeth i "annog" cynnydd mewn cyllidebau buddsoddi yw'r unig ffactor neu'r prif ffactor wrth geisio adenillion uwch o ystod ehangach o ddsbarthiadau asedau.**

**Mae ystyriaethau eraill yn cynnwys strategaeth fuddsoddi a benderfynir yn lleol sy'n briodol i rwymedigaethau pob cronfa, mwy o risg i noddwyr cyflogwyr sy'n gysylltiedig â buddsoddiadau adenillion uchel a dyletswyddau ymddiriedol cyngorau lleol.**

**Dylai'r llywodraeth nodi bod "cyllidebau" neu gostau buddsoddi wedi cynyddu (er gwaethaf lefelau ffioedd is a gyflawnwyd gan gronfeydd cyfunol) oherwydd cynnydd sylweddol mewn dyraniadau i fuddsoddiadau marchnad breifat, y mae rhai ohonynt yn cefnogi twf yn y DU. Mae hyn oherwydd bod costau rheoli buddsoddiadau ar gyfer y dosbarthiadau asedau hyn yn fwy.**

Gall adenillion buddsoddi uwch gynyddu'r risg i gyflogwyr sy'n cyllido'r CPLIL. Gallai gostyngiad parhaus yng ngwerth asedau risg uwch arwain at gynyddu cyfraniadau cyflogwyr.

Mae'r ystyriaethau wrth geisio adenillion uwch o ystod ehangach o asedau yn cynnwys:

- 1) strategaeth fuddsoddi a benderfynir yn lleol sy'n briodol i rwymedigaethau pob cronfa CPLIL unigol (maint y gwargedion, aeddfedrwydd rhwymedigaethau, llif arian positif neu negatiff, amrywio priodol i leihau risg, ac ati);
- 2) lefel y risg sy'n dderbyniol i gyflogwyr sy'n cyllido'r CPLIL ac a gytunwyd mewn strategaethau cyllido a benderfynwyd yn lleol; a
- 3) dyletswydd ymddiriedol i dalu pensiynau pan fyddant yn ddyledus (sydd yn ei dro yn arwain at geisio adenillion priodol wedi'u haddasu o ran risg heb gynnwys costau).

Mae cronfeydd wedi cynyddu dyraniadau i ystod ehangach o ddsbarthiadau asedau er mwyn amrywio. Mae buddsoddi mewn eiddo, seilwaith, ecwiti preifat a chredyd preifat wedi cynyddu'n sylweddol - yn rhannol oherwydd mwy o fynediad a hwyluswyd gan gronfeydd cyfunol. Cynyddodd buddsoddi mewn seilwaith ddengwaith rhwng 2016 a 2023 (o 0.6% i 6.2% o asedau CPLIL) a chynyddodd buddsoddi mewn ecwiti preifat deirgwaith (o 2.1% i 6.2%). Mae cyfran o hyn yn cefnogi twf yn y DU.

Nid yw pob dosbarth asedau marchnadoedd preifat neu fathau o fuddsoddi o fewn dosbarth asedau yn cynnig adenillion uwch. Er enghraifft, mae rhai mathau o fuddsoddi mewn seilwaith yn cynnig adenillion is, mwy sefydlog, sy'n gysylltiedig â chwyddiant.

Mae gan ddsbarthiadau asedau marchnadoedd preifat gostau rheoli buddsoddi uwch na dosbarthiadau asedau hylifol (hyd yn oed pan fyddant yn cael eu cyrchu mewn modd cost-effeithiol trwy gronfeydd cyfunol CPLIL). Mae hyn, ynghyd â thwf sylweddol mewn gwerth asedau, wedi cyfrannu at gynydd yng nghyfanswm y costau buddsoddi a welwyd gan y llywodraeth (er gwaethaf cyfraddau ffioedd is a gafwyd trwy gyfuno). Rhagwelwyd hyn pan oedd cronfeydd cyfunol yn cael eu sefydlu. Gall rhai dosbarthiadau asedau eraill ddarparu adenillion uchel gyda chyllidebau/costau

buddsoddi isel iawn (e.e. buddsoddiadau ecwiti goddefol). Mae pob un ohonynt yn rhan bwysig o'r gymysgedd gyffredinol.

Nid ydym yn credu y byddai ymyrraeth gan y Llywodraeth i annog cynnydd mewn cyllidebau buddsoddi yn golygu o reidrwydd bod cronfeydd a chronfeydd cyfunol CPLIL yn ceisio adenillion uwch ar gyfer ystod ehangach o ddsbarthiadau asedau (mae ffactorau heblaw cyllidebau buddsoddi yn llywio penderfyniadau ynghylch dyrannu asedau) ond byddai cymhellion i wneud rhai asedau yn y DU yn fwy atyniadol o bosibl yn gwneud hynny.

## Buddsoddi yn y DU

**C1. Beth yw'r potensial ar gyfer marchnad CPLIL a Chyfraniad Diffiniedig yn y gweithle fwy cyfunol, ynghyd â mwy o ffocws ar adenillion buddsoddi net (yn hytrach na chostau), i gynyddu buddsoddiad net mewn dosbarthiadau asedau yn y DU megis ecwiti heb ei restru ac ecwiti rhestredig a seilwaith, ac effeithiau posibl cynnydd o'r fath ar dwf yn y DU?**

**Ni fydd cydgrynhoi cronfeydd cyfunol CPLIL yn cyflawni amcan y llywodraeth o sicrhau mwy o fuddsoddiad net yn y DU. Ar hyn o bryd, y ffactorau cyfyngu yw buddsoddiadau'r DU sydd ar gael a pha mor atyniadol ydynt, a dyletswydd ymddiriedol.**

**Mewn gwirionedd, gallai cydgrynhoi cronfeydd cyfunol leihau buddsoddiad mewn cyfleoedd sy'n cefnogi twf economaidd yng Nghymru. Mae ystyriaethau tebyg yn berthnasol mewn mannau eraill yn y DU lle gallai cydgrynhoi cronfeydd cyfunol leihau buddsoddiadau effaith leol. Gall y math hwn o fuddsoddiad gynyddu buddsoddiad net yn y DU ond gallai buddsoddiad gan gronfeydd CPLIL mewn prosiectau seilwaith mawr yn y DU, er enghraifft, ddisodli buddsoddi yn yr un asedau yn y DU gan fuddsoddwyr eraill gan arwain at ddim cynnydd net.**

**Byddai nod y llywodraeth yn cael ei gyflawni'n well drwy gynyddu buddsoddiadau'r DU sydd ar gael a pha mor atyniadol ydynt, neu drwy newidiadau i'r ddyletswydd ymddiriedol.**

Ar hyn o bryd mae PPC yn buddsoddi tua 20% yn asedau cyfun y DU a'r rhai sydd o dan reolaeth cronfeydd cyfunol. Mae hyn yn cynnwys buddsoddiadau mewn mandadau goddefol yn y DU, mandadau a reolir yn weithredol, mandadau incwm sefydlog, dyraniadau i'r DU mewn mandadau byd-eang ar gyfer seilwaith ac ecwiti preifat a buddsoddiadau lleol yng Nghymru (gweler yr astudiaeth achos isod).

Bydd hyn yn cynyddu wrth i asedau symud i atebion marchnadoedd preifat cyfun dros y 6 mis nesaf.

Nid ydym yn credu bod maint y cronfeydd cyfunol yn rhwystro'r CPLIL rhag buddsoddi mwy yn y DU. Y ffactorau cyfyngu yw:

- 1) y buddsoddiadau addas sydd ar gael yn y DU o'u cymharu ag opsiynau buddsoddi byd-eang a pha mor atyniadol yw'r buddsoddiadau hynny; a
- 2) dyletswydd ymddiriedol sy'n ei gwneud yn ofynnol i gronfeydd CPLIL geisio'r adenillion mwyaf atyniadol, wedi'u haddasu o ran risg, yn fyd-eang ym mhob dosbarth asedau y mae'n penderfynu buddsoddi ynddo fel rhan o'i strategaeth fuddsoddi.

Yn ogystal â mandadau ecwiti penodol yn y DU, mae gan Gymru fandadau byd-eang mewn ecwitiâu rhestredig ac ecwitiâu heb eu restru ac mewn seilwaith sy'n gallu buddsoddi yn y DU. Yn y mandadau byd-eang hynny, mae dyraniadau i'r DU yn adlewyrchu barn rheolwyr buddsoddi ynghylch pa mor atyniadol yw cyfleoedd buddsoddi yn y DU. Mae gan ddyranwyr marchnadoedd preifat rôl sylweddol i'w chwarae hefyd wrth ddylanwadu ar fwy o fuddsoddi yn y DU. Mae PPC wedi meithrin perthynas strategol gref â'r dyranwyr ac mae barn PPC yn cael ei hystyried wrth wneud penderfyniadau ynghylch dyrannu asedau.

Mae buddsoddiad gan gronfeydd cyfunol CPLIL mewn cyfleoedd lleol ar raddfa lai yn bwysig. Mae'r rhain o bosibl yn ychwanegu at dwf yn y DU (tra gallai buddsoddiad gan y CPLIL mewn seilwaith ar raddfa fawr, er enghraifft, ddisodli buddsoddiad gan fuddsoddwyr rhyngwladol a fydd yn hytrach yn buddsoddi mewn gwledydd eraill, sy'n golygu nad oes cynnydd net yn asedau'r DU). Credwn y byddai

cydgrynhoi a chynnwys PPC mewn cronfa fwy yn debygol o'i gwneud hi'n anoddach buddsoddi'n lleol mewn seilwaith yng Nghymru.

#### Astudiaeth achos – Buddsoddiad Lleol PPC

Mae PPC wedi ymrwymo £68m i ddatblygiad maes glas Parciau Ynni gwynt ar y tir yng Nghymru. Bydd hyn yn sicrhau buddsoddiadau moesegol ac ynni gwyrdd glân i bobl Cymru a thu hwnt.

Pan fyddant yn weithredol, disgwylir i'r Parciau Ynni ddarparu tua £800m o Gyllid Budd Cymunedol i'r cymunedau sy'n byw agosaf at y prosiectau.



## Buddsoddi yn y DU

**C2. Beth yw'r prif ffactorau sy'n sail i batrymau newidiol buddsoddiadau cronfeydd pensiwn y DU mewn dosbarthiadau asedau yn y DU (gan gynnwys ecwitiau rhestredig yn y DU), megis perfformiad prisiau asedau yn y gorffennol a'r hyn a ragwelir, a ffactorau cost?**


Roedd pensiynau CPLIL a'r sector preifat yn y DU yn arfer buddsoddi'n fwy helaeth yn asedau'r DU. Mae cronfeydd CPLIL bellach yn buddsoddi'n fyd-eang wrth geisio amrywio a cheisio adenillion atyniadol wedi'u haddasu o ran risg. Ar yr un pryd, mae dyraniadau'r DU yn parhau i fod yn gymharol uchel ar draws ecwitiau, incwm sefydlog, eiddo tirol a seilwaith. Mae'r newid hwn yn gyson â dyletswydd ymddiriedol cronfeydd CPLIL – ceisio adenillion mwy atyniadol wedi'u haddasu o ran risg a lleihau risg (lleihau crynodiad ym marchnadoedd y DU).

Adenillion, nid cost, yw'r brif ystyriaeth. Mae'r DU wedi tanberfformio mewn marchnadoedd eraill am nifer o resymau gan gynnwys cyfansoddiad y sector (e.e. mae gan farchnadoedd yr Unol Daleithiau fwy o stociau technoleg). Ffactor arall sy'n gysylltiedig â phenderfyniadau ynghylch dyrannu buddsoddiadau yw nodau buddsoddi cyfrifol - mae gan y FTSE 100 bwysoliad uchel o ddiwydiannau sy'n ddwys o ran carbon.

Y prif ffactor sy'n ysgogi'r symudiad oddi wrth fuddsoddi yn y DU yw dyletswydd ymddiriedol - ceisio adenillion atyniadol wedi'u haddasu o ran risg ym mhob dosbarth asedau. Mae hyn wedi arwain at fwy o amrywiaeth o ran daearyddiaeth ar draws pob dosbarth asedau a cheisio'r adenillion mwyaf atyniadol wedi'u haddasu o ran risg o'r set cyfleoedd byd-eang.

Dros y 10 mlynedd diwethaf, roedd adenillion buddsoddi y FTSE 100 yn 6.5% y flwyddyn (maint 3.5%) o'i gymharu â mwy na 9% y flwyddyn (gyda maint tebyg) yn Ewrop (ac eithrio'r DU), Asia (ac eithrio Japan) a Japan. Mae marchnadoedd yr Unol Daleithiau (stociau technoleg tua 28% ar hyn o bryd, 10 gwaith yn fwy na phwysoliad y DU o ran stociau technoleg) wedi perfformio'n well fyth (tua 15.5% y flwyddyn gyda maint tebyg i'r DU).

Dangosir yr effaith gronol yn y siart isod:



Mae buddsoddi cyfrifol a risg hinsawdd hefyd yn ffactor pwysig. Mae buddsoddi'n fyd-eang yn rhoi mwy o gyfle i fuddsoddi mewn economi carbon isel gan fod gan y DU bwysoliad uchel i ddiwydiannau sy'n ddwys o ran carbon (e.e. nwyddau a stociau ynni).

**C3. A oes achos dros sefydlu cymhellion neu ofynion ychwanegol gyda'r nod o gynyddu dyraniadau portffolio cronfeydd Cyfraniad Diffiniedig a CPLIL i asedau yn y DU neu ddsbarthiadau asedau penodol yn y DU, gan ystyried blaenoriaethau'r adolygiad i wella canlyniadau cynilwyr a hybu twf yn y DU?**

**Yn ogystal, ar gyfer y CPLIL, mae opsiynau i gefnogi a chymell buddsoddi mewn cymunedau lleol gan gyfrannu at dwf lleol a rhanbarthol. Beth yw'r opsiynau ar gyfer y cymhellion a'r gofynion hynny a beth yw eu rhinweddau cymharol a'u heffeithiolrwydd a ragwelir?**

**Oes. Er bod gan PPC a chronfeydd cyfunol eraill ddyraniad sylweddol i'r DU eisoes, mae achos dros sefydlu cymhellion ychwanegol i annog dyraniadau uwch i asedau yn y DU yn gyffredinol. Gallai cymhellion wneud buddsoddi yn y DU yn fwy atyniadol a'i gwneud yn bosibl buddsoddi mwy yn y DU o fewn y cyfrifoldebau ymddiriedol presennol.**

**Os yw'r llywodraeth yn dymuno cyflwyno "gofynion" (e.e. dyraniadau penodol i asedau'r DU gyda'i gilydd neu ar gyfer dosbarthiadau asedau penodol) yna bydd angen ymchwilio i'r materion cyfreithiol o ran sut mae gofynion o'r fath yn rhyngweithio â dyletswyddau ymddiriedol.**

**Gallai cymell buddsoddi'n lleol a thrwy hynny ei wneud yn fwy atyniadol gynyddu dyraniadau ymhellach o fewn cyfyngiadau presennol y ddyletswydd ymddiriedol a darparu buddsoddiad ychwanegol mewn twf yn y DU.**

Mae yna amryw o ffyrdd y gallai'r llywodraeth gymell mwy o fuddsoddi ym marchnadoedd y DU a chefnogi twf yn y DU o fewn cyfyngiadau'r gofyniad presennol o ran dyletswydd ymddiriedol.

Gallai cymhellion fod ar ffurf llai o dreth a thollau ar fuddsoddiadau'r DU neu ddarparu gwarantau neu ategiadau i leihau risg. Enghraifft o adeg pan oedd hyn yn effeithiol yw'r effaith a gafodd cymorthdaliadau'r llywodraeth a Mentrau Cyllid Preifat ar yr awydd i fuddsoddi mewn seilwaith yn y DU.

Mae enghreifftiau penodol yn cynnwys:

- rhoi tir, gwarantau cynllunio neu gontractau cynnyrch terfynol i gyflymu a lleihau'r risg sy'n gysylltiedig â phrosiectau yn y DU;
- cymhellion i'r CPLIL wrth wneud buddsoddiadau drwy fentrau sydd â chysylltiad agos â'r llywodraeth fel y Gronfa Gyfoeth Wladol;
- ategiadau buddsoddi sy'n gwarantu isafswm adenillion ar fuddsoddiadau lleol fel tai, trafndiaeth, dŵr, ysgolion, ac ati; a
- chymorth treth, megis cael gwared â threth stamp sy'n lleihau cost buddsoddi yn y DU ac yn cynyddu adenillion.

Mae cymhellion yn arwain at gost i'r llywodraeth yn y tymor byr ond byddai'r gost yn debygol o gael ei hadennill yn y tymor hir.

Gallai gofynion i fuddsoddi mewn rhai asedau yn y DU helpu i gynyddu buddsoddi yn y DU ond bydd yn cymryd amser a gall arwain at adenillion is ar gyfer cronfeydd CPLIL gyda sgil effeithiau o ran cyfraniadau gan gyflogwyr. Gallai'r dull hwn greu problemau cyfreithiol y mae angen eu harchwilio, yn benodol, sut mae'n rhyngweithio â dyletswydd ymddiriedol.